Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Cynnwys ac ymgysylltu â’r cyhoedd – canllawiau ar dalu am dreuliau a’r cynnig tâl am amser i unigolion sydd wedi’u cofrestru â’r gymuned gynhwysol

*Ysgrifennwyd y canllawiau hyn gan y tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd a bu aelodau’r gymuned cynnwys y cyhoedd yn eu hadolygu. Mae’r fersiwn hon, dyddiedig Ebrill 2021, yn disodli pob fersiwn flaenorol o’r polisi hwn. Diolch i’n hadolygwyr cyhoeddus.*

## Cynnwys

**Cyflwyniad** ........................................................................................................ 3

**1. Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?** ........................................................................ 4

**2. Treuliau** ............................................................................................................ 4

2.1 Pa dreuliau sy'n cael eu talu? ........................................................... 4

2.2 Pa dreuliau sy'n cael eu talu? ........................................................... 4

**3. Y cynnig tâl am amser** ........................................................................ 7

3.1 Cyfraddau ............................................................................................ 7

3.3 Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth ............................. 7

**4. Cyfrifoldeb am daliadau treth** ........................................................................ 8

**5. Cyflwyno'ch hawliad am ffioedd a threuliau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo ymlaen llaw** ........................................................................ 8

**6. Manylion cyswllt** ........................................................................................ 9

## Cyflwyniad

Mae tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i alinio'i arfer â Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd, gan werthfawrogi a galluogi cynnwys y cyhoedd yn seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a thu hwnt, a chan gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae talu am dreuliau'n uniongyrchol, neu eu had-dalu, a thalu am amser yn rhai ffyrdd y mae'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle cyfartal i chwarae rhan.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i unigolion sydd wedi'u cofrestru â'r gymuned gynhwysol lle mae'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn darparu cymorth ariannol, gan amlinellu cyfraddau penodol ar gyfer treuliau a thalu am amser. Mae wedi'i ddatblygu gan gyfeirio at ganllawiau INVOLVE ar ddatblygu polisi ar gyfer tâl a chydnabyddiaeth ariannol (www.invo.org.uk/resource-centre/payment-andrecognition-for-public-involvement/developing-a-policy-for-payment-andrecognition/). Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl cyn, yn ystod ac ar ôl eich cynnwys, ac am y prosesau ar gyfer hawlio tâl am amser a threuliau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ni ystyrir y cynnig tâl (y cyfeirir ato weithiau fel honorariwm) yn gontract cyflogaeth, ond yn hytrach yn ffordd o gydnabod cyfraniadau gan unigolion sydd wedi'u cofrestru â'r gymuned gynhwysol. Wrth weinyddu ad-dalu a thalu, cedwir at weithdrefnau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, sy'n gwesteio'r Ganolfan Cefnogi a Chyflenwi.

## 1. Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?

Unigolion sydd wedi'u cofrestru â'r gymuned gynhwysol sy'n cael eu cynnwys mewn, neu sy'n cyfrannu at ddigwyddiad penodol, cwrs hyfforddi, cyfarfod, gweithgaredd neu ddarn o waith wedi'i alinio â seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sy'n cael eu cyflogi.

## 2. Treuliau

### 2.1 Sut fyddwn ni'n talu am eich treuliau?

Mae gennym ni broses cymeradwyo ymlaen llaw sy'n sicrhau ein bod wedi cytuno ar unrhyw dreuliau cyn y gweithgaredd cynnwys a chyn i'r unigolyn sydd wedi'i gofrestru â'r gymuned gynhwysol fynd i unrhyw gostau.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn archebu ac yn talu am dreuliau ymlaen llaw. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r unigolion sy'n cymryd rhan yn gorfod talu am bethau o'u poced eu hunain, ac mae'n ein galluogi i gael gwerth da am arian o gronfeydd cyhoeddus. Os nad oes gan unigolion gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, rhaid iddynt ofyn i'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd archebu a thalu'n uniongyrchol am dreuliau.

Byddwn yn talu am dreuliau pan:

- fydd yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru â'r gymuned gynhwysol wedi llenwi ffurflen cymeradwyo ymlaen llaw
- bydd y treuliau posibl wedi'u cymeradwyo ac y bydd yna gytundeb ysgrifenedig
- bydd yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru â'r gymuned gynhwysol yn gallu darparu tystiolaeth o dreuliau y mae wedi mynd i gostau amdanynt, ar ffurf derbynebau (ar ôl y gweithgaredd)
- bydd y tîm o'r farn bod y treuliau yn rhesymol, yn briodol ac yn gysylltiedig â'r gweithgaredd

### 2.2 Pa dreuliau sy'n cael eu talu?

## Teithio

#### Trên

Bydd y tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn archebu ac yn talu am dreuliau teithio ymlaen llaw i unrhyw weithgaredd cynnwys y cytunwyd arno.

Mewn rhai sefyllfaoedd penodol, mae'n bosibl na fydd y tîm yn gallu gwneud hyn ymlaen llaw i weithgaredd. **Cyn belled â bod y treuliau teithio disgwyliedig wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw fel rhan o'r broses cymeradwyo ymlaen llaw,** gellir ad-dalu'r treuliau a ganlyn:

- Prisiau tocynnau trên safonol (nid dosbarth cyntaf), prisiau tocynnau trên undydd rhatach neu rai gostyngol eraill lle bo'n bosibl, **â derbynebau i'w cefnogi**

Mewn rhai sefyllfaoedd penodol, mae'n bosibl bod gan aelod gerdyn teithio ar y rheilffordd sy'n caniatáu iddynt brynu tocynnau ar gyfradd ostyngol. Yn yr amgylchiadau hyn, a fyddech cystal â rhoi gwybod i'r tîm adeg y cymeradwyo ymlaen llaw.

## Car

Rydym yn annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bo'n bosibl ond, pan fo angen, telir cyfradd y filltir gan ddefnyddio tariff ar gyfer defnyddwyr car sy'n unol â pholisi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) (https://www.gov.uk/government/publications/ratesand-allowances-travel-mileage-and-fuel-allowances/travel-mileage-and-fuel-ratesand-allowances).

| **Math o gerbyd** | |
|---|---|
| Ceir a faniau | 45c y filltir |
| Beiciau modur | 24c y filltir |
| Beiciau | 20c y filltir |

Ar gyfer y llwybr ymarferol byrraf wedi'i gyfrifo'n defnyddio cynlluniwr teithiau'r AA.

Telir 5 ceiniog y filltir ychwanegol ar gyfer pob teithiwr ychwanegol yn y cerbyd os yw'r teithiwr hwnnw hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Os yw gofalwr neu gynorthwyydd personol yn teithio gyda'r unigolyn sy'n cymryd rhan yn yr un car, nid yw tâl am filltiroedd teithwyr yn daladwy ar gyfer y gofalwr / cynorthwyydd personol.

Os yw'r unigolyn sy'n cymryd rhan yn ymestyn eu siwrnai neu'n gwyro ohoni i wneud gweithgaredd nad yw'n gysylltiedig â'r gweithgaredd cynnwys, ni cheir hawlio am y milltiroedd ychwanegol. Fodd bynnag, os dilynir llwybr gwahanol ar y diwrnod oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn, rhaid egluro hyn ar y ffurflen hawlio.

## Tollau teithio eraill a pharcio

Caiff prisiau tocynnau bws, tacsi a'r rheilffordd danddaearol eu had-dalu yn ogystal â mân dreuliau siwrnai, gan gynnwys tollau a pharcio, pan fo amgylchiadau'n cyfiawnhau'r gwariant a'u bod ar y gyfradd rataf ar gael, a bod derbynebau'n eu cefnogi. Nid yw dirwyon parcio neu oryrru'n gymwys i'w had-dalu.

## Llety

Bydd y tîm bob amser yn ymdrechu i archebu hyn ymlaen llaw. Cysylltwch â ni i wneud cais am hyn **o leiaf dwy wythnos cyn y gweithgaredd**. Mae'r tîm wedi'i chael yn anodd trefnu llety yn ystod amseroedd prysur, felly mae'n ddefnyddiol os y gallwch chi roi cymaint o rybudd â phosibl ymlaen llaw. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r tîm wedi methu ag archebu a thalu am lety ymlaen llaw i'r gweithgaredd, **gall yr unigolyn sy'n cymryd rhan archebu llety cyn belled â bod y tîm wedi cymeradwyo'r gost yn gyntaf.**

Gellir ad-dalu costau llety fel a ganlyn:

- Y tu allan i Lundain, y llety rhataf sydd ar gael sy'n ddigonol ar gyfer anghenion yr **unigolyn sy'n cymryd rhan**, fel rheol heb fod yn fwy na £100 y person, y noson (gan gynnwys brecwast a TAW). Os yw unrhyw lety yn fwy na'r swm hwn o £100, yna mae'n rhaid i'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ei gymeradwyo ymlaen llaw.

- Y tu mewn i Lundain, y llety rhataf sydd ar gael sy'n ddigonol ar gyfer anghenion yr **unigolyn sy'n cymryd rhan**, fel rheol heb fod yn fwy na £150 y person, y noson (gan gynnwys brecwast a TAW). Os yw unrhyw lety yn fwy na'r swm hwn o £150, yna mae'n rhaid i'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ei gymeradwyo ymlaen llaw.

- Os byddwch chi'n dewis aros gyda ffrindiau neu berthnasau ni allwn ni dalu am unrhyw rai o'r costau hyn.

## Cynhaliaeth

Fel rheol, mae prydau bwyd, lluniaeth a byrbrydau'n cael eu darparu mewn digwyddiad. Fodd bynnag, gellir talu am gostau prydau bwyd pan fydd **unigolyn** sy'n cymryd rhan yn absennol o'i gartref a mwy na phum awr o daith o'i gartref ar y llwybr ymarferol byrraf.

Caiff costau am brydau bwyd, byrbrydau a **diodydd dialcohol** eu had-dalu **cyn belled â bod y treuliau disgwyliedig wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw fel rhan o'r broses cymeradwyo treuliau ymlaen llaw:**

- Brecwast hyd at £5.00 (dim ond os yw'r unigolyn i ffwrdd o gartref am bum awr, gan gynnwys y cyfnod rhwng 07:00 a 09:00)

- Cinio bach hyd at £5.00 (dim ond os yw'r unigolyn i ffwrdd o gartref am bum awr, gan gynnwys y cyfnod rhwng 12:00 a 14:00)

- Cinio nos hyd at £20.00 (dim ond os yw'r unigolyn i ffwrdd o gartref am ddeg awr ac yn dychwelyd adref ar ôl 19:00)

Mae'n ddyletswydd ar y tîm i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bydd yn cymryd bod ganddo hawl i ofyn cwestiynau ynglŷn ag amser

teithio ychwanegol. Os bydd yr **unigolyn** sy’n cymryd rhan yn dewis cymryd llwybr neu ddull teithio hirach yna ni all y tîm dalu am brydau bwyd os yw’r siwrnai’n cael ei hymestyn y tu hwnt i’r amser teithio disgwyliedig. Ni fydd y tîm yn ad-dalu am brydau bwyd ar ôl 21:00 onid yw o’r farn bod hyn yn hollol angenrheidiol i gynnwys yr unigolyn yn y gweithgaredd.

### Costau gofalwr neu ofal plant amgen

Os yw’r **unigolyn sydd wedi’i gynnwys** fel rheol yn ofalwr neu’n cefnogi rhywun, fe allai ei gynnwys yn y gweithgaredd olygu y byddai’n cael ei wahanu oddi wrth rywun sydd fel rheol yn dibynnu arno i fod yno. Gall y tîm dalu am gost darparu gofal amgen angenrheidiol tra’i fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi’u cymeradwyo ymlaen llaw. Mae’n bosibl y bydd angen rhoi manylion penodol i sicrhau bod y tîm yn gallu cefnogi hyn yn llawn.

Rydym yn gallu ad-dalu costau gofalwr neu ofal plant os na allwch dalu’n uniongyrchol. I wneud cais am hyn, dylai unigolion sydd wedi’u cofrestru â’r gymuned gynhwysol gysylltu â’r tîm o leiaf dwy wythnos cyn y gweithgaredd i fynd trwy’r broses cymeradwyo ymlaen llaw.

### Gofalwr/cynorthwyydd personol i’ch hebrwng

Os oes angen i ofalwr/cynorthwyydd personol anffurfiol, di-dâl hebrwng yr unigolyn sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys sydd wedi’u cymeradwyo ymlaen llaw (er enghraifft os yw’r unigolyn yn anabl), mae’n bosibl y caiff treuliau’r gofalwr/cynorthwyydd personol hefyd eu had-dalu. Mae’n bosibl y bydd angen rhoi manylion penodol i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi hyn yn llawn.

Caiff y costau hyn eu gweinyddu gan ddilyn yr un weithdrefn â’r un a ddefnyddir ar gyfer unigolion sydd wedi’u cofrestru â’r gymuned gynhwysol.

### Costau eraill (cydraddoldeb ac amrywiaeth)

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan, bydd y tîm yn ystyried talu am gostau rhesymol sy’n ychwanegol at y rheini a ddangosir uchod, a allai gynnwys dehonglwyr/cyfieithwyr, arwyddwyr ar gyfer pobl fyddar ac ati. Dylid bod wedi cytuno ar hyn ymlaen llaw i’r gweithgaredd/cyfarfod cynnwys, a bydd yn dilyn yr un gweithdrefnau ag uchod.

### Ad-dalu unigolion sydd wedi’u cofrestru â’r gymuned gynhwysol sydd ag anableddau

Gall unigolion sydd wedi’u cofrestru â’r gymuned gymhwysol sydd ag anableddau hawlio am gyfleusterau llety/teithio/cynhaliaeth ychwanegol i’w cefnogi mewn gweithgareddau cynnwys sydd wedi’u cymeradwyo ymlaen llaw (er enghraifft, yr angen am gymorth porthor neu am logi teclyn codi neu offer arall i’w cefnogi mewn llety). **Rhaid gofyn i’r tîm gytuno ar y costau posibl hyn yn ysgrifenedig fel rhan o’r broses cymeradwyo treuliau ymlaen llaw**, cyn i’r unigolyn ymgymryd â gweithgaredd cynnwys.

### Gweithio o bell

Pan fydd cyfranogwyr cyhoeddus yn bwriadu cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell o'u cartref ac mae'n bosibl y bydd yna gostau ychwanegol, cysylltwch â'r tîm i drafod hyn.

## 3. Y cynnig tâl am amser

### 3.1 Cyfraddau

O fis Ebrill 2019, caiff cyfleoedd y bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu hysbysebu eu categoreiddio i adlewyrchu'r ymrwymiad amser, profiad, gwybodaeth a chymorth gofynnol. Mae rhagor o wybodaeth am y categorïau i'w gweld ar ein gwefan (https://www.healthandcareresearch.gov.wales/uploads/Public/Current_opportunities/three_categories_of_involvement_cy.pdf). Fe fydd rhai categorïau cynnwys yn galw am i'r tîm gynnig tâl am amser, arbenigedd a sgiliau ar gyfer gweithgareddau cynnwys sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw.

**Bydd hysbysebion bob amser yn egluro pa daliadau, os o gwbl, fydd yn cael eu cynnig. Ni chynigir tâl am amser ar gyfer gweithgareddau hyfforddi neu ar gyfer mynychu cynadleddau.**

Dyma'r gyfradd dalu y gellir o bosibl ei chynnig:

- Hyd at £20 yr awr am weithgaredd cynnwys y cyhoedd a allai gynnwys amser paratoi rhagnodedig, mynychu cyfarfodydd a chymryd rhan mewn cyfarfodydd telegynadledda neu skype.

### 3.2 . Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth:

- I'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, mae cyngor cyfrinachol ar gael trwy'r Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau wrth Helpu ag Ymchwil: https://www.healthandcareresearch.gov.wales/uploads/Public/Resources/Benefits_Advice_Service_flyer_March_19_cy.pdf

## 4. Cyfrifoldeb am daliadau treth

- Mae'n bosibl yr ystyrir y tâl y byddwch chi'n ei dderbyn yn incwm trethadwy. Y chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl fesurau a datganiadau gofynnol yn eu lle pan dderbynnir yr incwm hwn, gan gynnwys unrhyw Dreth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y gallai bod angen ichi eu talu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, y swm llawn, sy'n cynnwys unrhyw swm ychwanegol sy'n ofynnol at ddibenion treth, yw'r incwm a dderbynnir ac nid yw tîm Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am hyn. Gellir cael cyngor pellach ynglŷn â threth oddi wrth HMRC: **https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/employment-incomemanual/eim71105**

## 5. Cyflwyno'ch hawliad am ffioedd a threuliau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo ymlaen llaw

- Pan fyddwch yn hawlio gyntaf, fe fyddwn yn gofyn ichi gwblhau ffurflen manylion banc (BACS) a'i dychwelyd i ni trwy e-bost. Cysylltwch â ni os ydy hyn yn broblem.
- Y cam nesaf yw llenwi'r ffurflenni hawlio a fydd yn cael eu hanfon atoch trwy e-bost.
- Atodwch bob un o'ch derbynebau perthnasol trwy eu sganio neu dynnu llun digidol ohonyn nhw.
- E-bost nhw i: Research-involvement@wales.nhs.uk

Dylid cyflwyno ffurflenni hawlio cyn gynted â phosibl ac, os oes modd, o fewn 4 wythnos o'r digwyddiad neu'r gweithgaredd y mae'r hawliad yn berthnasol iddo. **Ni chaiff ffurflenni hawlio a gyflwynir fwy nag 8 wythnos ar ôl y digwyddiad neu'r gweithgaredd y mae'r hawliad yn berthnasol iddo eu hawdurdodi i'w talu.**

Caiff tâl am amser a threuliau eu hawdurdodi cyn gynted ag y bydd y costau wedi'u cymharu â'r costau disgwyliedig fel rhan o'r broses cymeradwyo costau ymlaen llaw. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yna'n rheoli talu'r hawliad ar ran Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Caiff tâl am amser a ffioedd eu had-dalu trwy BACS gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o fewn 6 wythnos o dderbyn y ffurflen hawlio. Caiff hysbysiad talu ei anfon at yr hawliwr trwy'r post neu drwy e-bost. Cynllun y Deyrnas Unedig yw BACS (acronym am Bankers' Automated Clearing Services yn wreiddiol) ar gyfer prosesu trafodion ariannol yn electronig. Mae taliadau BACS yn cymryd tri diwrnod gwaith i'w clirio. Maent yn cael eu cofnodi ar y system ar y diwrnod cyntaf, eu prosesu ar yr ail ddiwrnod a'u clirio ar y trydydd diwrnod.

**Mae'n ddyletswydd ar y tîm i sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n briodol, ac ni fydd yn awdurdodi tâl am:**

- unrhyw hawliadau sy'n groes i'r canllawiau hyn
- unrhyw hawliadau heb dderbynebau dilys
- unrhyw hawliadau am weithgareddau cynnwys sydd heb eu mynychu / eu gwneud

## 6. Manylion cyswllt

I gael rhagor o help a chymorth, cysylltwch â’r Tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd yn:

Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Pont-y-castell
4
15-19 Heol Ddwyrain y Bontfaen
Caerdydd
CF11 9AB

Ffôn: 02920 230457
E-bost: cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk